

Cytundebau Rhyngwladol

Cytundebau a drafodwyd ar 7 a 14
Mawrth 2022

Mawrth 2022



1. Cefndir

1. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.
2. Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.
3. Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol ar Gymru mewn cysylltiad â'r rhai a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (Deddf 2010). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynol o 21 diwrnod.
4. Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried:
 - a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
 - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
5. Ar 7 a 14 Mawrth 2022, gwnaethom ystyried tri chytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU.¹
6. Y cytundebau a drafodwyd oedd:
 - Y DU/Serbia: Ail-dderbyn Pobl sy'n Preswyllo heb Ganiatâd;
 - Confensiwn y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Cymhorthion Mordwyaeth Forol (IOMAN); a
 - Chweched Protocol i'r Confensiwn ar Adeiladu a Gweithredu Adweithydd Fflwcs Niwtron Uchel lawn.
7. Cytunwyd i gymryd camau pellach ar ddau o'r cytundebau a nodi'r trydydd er gwybodaeth yn unig. Nodir rhagor o fanylion am y cytundebau isod.

¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 7 Mawrth 2022 a Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Mawrth 2022

2. Y cytundebau sydd angen camau pellach

Confensiwn y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Cymhorthion Mordwyaeth Forol (IOMAN)

8. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 1 Mawrth 2022. Y dyddiad cau ar gyfer gwaith craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 26 Ebrill 2022. Trafodwyd y cytundeb yn ein cyfarfod ar 14 Mawrth.

9. Diben y cytundeb yw trosglwyddo'r hen Gymdeithas Ryngwladol o Gymhorthion Morol i Awdurdodau Mordwyaeth a Goleudai, sy'n gorff anllywodraethol, i ddod yn sefydliad rhynglywodraethol newydd, sef y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Cymhorthion Mordwyaeth Forol (IOMAN). Rôl y Sefydliad hwn yw sicrhau bod morwyr yn cael cymhorthion morol effeithiol a chyson ar gyfer mordwyaeth er mwyn helpu gyda mordwyaeth morgludiant diogel.

10. Mae'r cytundeb yn ymwneud â sefydlu sefydliad rhyngwladol. Mae paragraff 10 o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006) yn darparu bod cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl. Mae gwasanaethau Gwylwyr y Glannau a chwilio ac achub morol hefyd wedi'u cadw yn ôl o dan Atodlen 7A. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan yr ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig ynghylch drafftio'r Confensiwn a'u bod yn fodlon, er ei fod yn ymwneud â materion sydd wedi'u cadw' yn ôl yn llawn.

11. Nodwyd y cytundeb a chytunwyd i wneud cais am y canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- amlinelliad o'r broses ymgynghori a ddefnyddiwyd ar gyfer y cytundeb hwn;
- cadarnhad ei bod yn fodlon y rhoddwyd ystyriaeth ddigonol i'w barn; a
- chadarnhad ei bod yn fodlon â'r cytundeb.

Chweched Protocol i'r Confensiwn ar Adeiladu a Gweithredu Adweithydd Fflwcs Niwtron Uchel iawn (y DU-Ffrainc-yr Almaen)

12. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 1 Mawrth 2022. Y dyddiad cau ar gyfer gwaith craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 26 Ebrill 2022. Trafodwyd y cytundeb yn ein cyfarfod ar 14 Mawrth.

13. Diben y cytundeb hwn yw ymestyn y trefniadau presennol rhwng y DU, Ffrainc a'r Almaen 10 mlynedd rhwng 2024 a 2033 o ran rhedeg y sefydliad Istitut Laue–Langevin (ILL), sef cyfleuster ymchwil sy'n arwain y byd ym maes ymchwil wyddonol gan ddefnyddio niwtronau. Mae wedi'i leoli yn Grenoble, Ffrainc. Mae ymchwil y sefydliad yn cefnogi datblygiadau mewn

gwyddoniaeth deunyddiau, technolegau ynni carbon isel, yr economi ddigidol a thriniaethau gofal iechyd.

14. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys gwybodaeth am ddatganoli. Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) yw'r cyfranddaliwr yn y sefydliad ar ran y DU. Mae UKRI a Chynghorau Ymchwil, o fewn ystyr *Deddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965* wedi'u cadw yn ôl fel y darperir gan baragraff 87 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Mae cyllid ymchwil wyddonol i'r graddau y mae'n ymwneud ag UKRI a'r Cynghorau hynny hefyd wedi'i gadw yn ôl.

15. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bum blaenoriaeth ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi, gan gynnwys:

- sicrhau bod gan Gymru gyfran deg o'r cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi sydd ar gael;
- sicrhau lefelau cyllido sy'n cyfateb o leiaf i'r rhai a dderbyniwyd yn hanesyddol, drwy'r UE; a
- datblygu strategaeth arloesi newydd ar draws Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ysgogi effaith.

16. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod adolygiad annibynnol a gynhaliwyd yn 2017 wedi gwneud argymhellion ar gyfer sicrhau y gallai ymchwilwyr barhau i gael mynediad at ffynonellau niwtron i gefnogi anghenion gwyddoniaeth a thechnoleg y DU. Cafodd y canfyddiadau hyn eu cadarnhau gan ddiweddariad a gynhaliwyd yn 2020 a nododd fod mynediad parhaus y DU i'r sefydliad wedi dod yn "bwysicach" ers yr adolygiad blaenorol er mwyn cynnal y capasiti ar gyfer cymuned defnyddwyr niwtron y DU.

17. Nodwyd y cytundeb a chytunwyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ganfod a ymgynghorwyd â hi wrth ddatblygu'r cytundeb hwn; a'i hasesiad o'r effaith, os o gwbl, ar sectorau ymchwil, datblygu ac arloesi Cymru.

3. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

Y DU/Serbia: Aildderbyn Personau sy'n Preswyllo heb Ganiatâd

18. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 24 Chwefror 2022. Y dyddiad cau ar gyfer gwaith craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 30 Mawrth 2022. Trafodwyd y cytundeb yn ein cyfarfod ar 7 Mawrth.

19. Diben y cytundeb yw darparu mecanwaith wedi'i gytuno ar gyfer dychwelyd unigolion sydd wedi torri cyfreithiau, polisiau a gweithdrefnau mewnfudo. Mae'n gytundeb dwyochrog ac yn berthnasol i ddinasyddion Serbia/Prydeinig, pobl sydd â'r hawl i breswyllo yn Serbia/y DU yn ogystal â gwladolion trydydd parti, sydd â chysylltiad wedi'i ddilysu â Serbia/y DU. Canlyniad i ymadawiad y DU â'r UE yw'r cytundeb.

20. Nid yw Memorandwm Esboniadol y cytundeb yn cynnwys adran ar ddatganoli, sydd fel arfer wedi'i chynnwys mewn memoranda esboniadol i gytundebau rhyngwladol. Fodd bynnag, mae gwybodaeth sy'n ymwneud â datganoli wedi'i chynnwys mewn man arall. Mae hyn yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â pholisi mewnfudo, nad yw'n fater datganoledig, nad ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig yn ystod ei drafodaethau.

21. Nodwyd y cytundeb er gwybodaeth ac nad yw gwybodaeth sy'n ymwneud â datganoli wedi'i chynnwys mewn adran benodol ar ddatganoli, er ei bod wedi'i chynnwys mewn man arall mewn adran ar ymgynghori.